**Atodiad A - Y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth: Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant**

## 1. Amcanion polisi

### 1.1. Effaith pa benderfyniad rydych chi'n ei hasesu?

Mae'r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn ymdrin â'r elfennau canlynol o Raglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru:

a) datblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth (y 'Fframwaith Cenedlaethol')
b) adolygu Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)
c) sefydlu swyddfa newydd – y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth

Y Fframwaith Cenedlaethol
Drwy'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth ein nod yw sefydlu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth, cryfhau trefniadau partneriaeth ranbarthol a chreu Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth a fydd yn goruchwylio ac yn cefnogi’r broses o weithredu a rheoli’r Fframwaith Cenedlaethol.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol wedi'i gydgynhyrchu gan aelodau o Grŵp Technegol Cenedlaethol ac mae i'w sefydlu drwy God Ymarfer statudol a fydd yn gymwys i’r gwaith o gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth i blant ac oedolion gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Mae felly’n gymwys i wasanaethau plant a phobl ifanc.

Nod y Fframwaith Cenedlaethol yw ailgydbwyso’r sail a ddefnyddir i gomisiynu darpariaeth gwasanaethau gofal a chymorth, drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau a gwerth cymdeithasol a thrwy symud oddi wrth bris tuag at ansawdd a thrwy ganolbwyntio ar ganlyniadau.

Bydd yn gosod egwyddorion a safonau ar gyfer comisiynu ymarfer gyda'r nod o leihau cymhlethdod, hwyluso cysondeb cenedlaethol o ran arferion comisiynu ac ailgydbwyso comisiynu i ganolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau. Mae’n darparu ar gyfer mwy o gysondeb a thryloywder yn y cylch comisiynu.

Mae datblygu a gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol yn rhan bwysig o'n taith tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol ac mae'n darparu rhai o'r sylfeini angenrheidiol ar gyfer ei weithredu.

Ymgynghorwyd ar fersiwn ddrafft o'r Cod yn yr ymgynghoriad ar y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth[1] yn 2023. Roedd yr ymatebion a ddaeth i law yn gadarnhaol ynghylch y Fframwaith Cenedlaethol a'r cysondeb y mae'n anelu at ei gyflwyno i arferion comisiynu. Mae'r Cod drafft wedi'i ddiwygio ar sail ystyriaeth gynhwysfawr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gan gynnwys yr awgrymiadau ar sut i gryfhau'r egwyddorion a'r safonau ymhellach.

---

[1] https://www.llyw.cymru/y-rhaglen-ailgydbwyso-gofal-chymorth

Cafodd yr Asesiad hwn o’r Effaith ar Hawliau Plant, yn ogystal â'r Asesiad Effaith Integredig, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Memorandwm Esboniadol ar y Cod eu cyhoeddi’r un pryd ag y gosodiwyd y Cod gerbron y Senedd ar 19 Mawrth 2024.

Ar 18 Ebrill tynnwyd y cod drafft hwnnw yn ôl gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol i'w ddiwygio yng ngoleuni adroddiad y Pwyllgorau Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Ailosodwyd y cod drafft diwygiedig ar 11 Mehefin 2024.

Yn dilyn cyfnod gweithredu trosiannol a fydd yn cynnwys hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer awdurdodau lleol a chomisiynwyr gofal a chymorth y GIG, bwriedir i'r Cod ddod i rym ar 1 Medi 2024.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Fframwaith byddwn yn cyflwyno pecyn cymorth digidol cenedlaethol o ddogfennau arferion da i helpu comisiynwyr i gyflawni yn erbyn yr egwyddorion a'r safonau a nodir yn y cod.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd y Cod yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob dwy flynedd yn fras, i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag arferion comisiynu presennol. Bydd canllawiau anstatudol yn cael eu darparu (os bydd angen) rhwng yr adolygiadau dwy flynedd ffurfiol o'r Cod.

<u>Y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth</u>
Mae'r Swyddfa Genedlaethol yn swyddfa newydd sy'n cael ei sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd yn cynnwys swyddfa bresennol y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a bydd ganddi swyddogaeth gomisiynu genedlaethol yn ogystal â rôl allweddol o ran bwrw ymlaen â Chamau tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

### 2.1. Pa ymchwil a data presennol ar blant a phobl ifanc sydd ar gael i lywio eich polisi penodol chi? Gall eich amcan polisi effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau gyda thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses asesu effaith drwy sicrhau eich bod wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.

<u>Y Fframwaith Cenedlaethol / Y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth</u>
Defnyddiwyd tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau i lunio a llywio datblygiad y Fframwaith Cenedlaethol a swyddogaeth, bwriad ac amcanion arfaethedig y Swyddfa Genedlaethol gan gynnwys:

a) Dadansoddiad o'r farchnad gofal cymdeithasol a’r dull o gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, a gynhaliwyd i lywio datblygiad y **Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth**[2].

[2]https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-01/dogfen-ymgynghori_0.pdf

b) Yr **ymgynghoriad**[3] ar y Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth.
c) Y **gwerthusiad**[4] o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[5] ("y Ddeddf").
d) Aelodau o Grŵp Technegol y Fframwaith Cenedlaethol, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth eang o blith amrywiaeth o randdeiliaid mewnol ac allanol gan gynnwys: Gofal Cymdeithasol Cymru; ADSS Cymru; awdurdodau lleol; y Gymdeithas Cartrefi Plant annibynnol; Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant (4C); byrddau iechyd; y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol; y Fforwm Darparwyr Cenedlaethol; y Rhwydwaith Maethu; yr Uned Genedlaethol Comisiynu Cydweithredol; Arolygiaeth Gofal Cymru; CWMPAS; y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Fforwm Gofal Cymru. Roedd disgwyl i'r Aelodau ystyried dibyniaethau allweddol, ymrwymiadau ehangach y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio wrth ddarparu cyngor ac argymhellion terfynol ar y Fframwaith Cenedlaethol. Y dibyniaethau allweddol a nodwyd oedd:
    - Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal;
    - Bwrdd Goruchwylio Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Plant;
    - Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol;
    - Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru);
    - Bil Caffael Cyhoeddus Llywodraeth y DU;
    - Grwpiau Gorchwyl a Gorffen Rhanbarthol;
    - Adolygiadau polisi Gofal Nyrsio a Ariennir a Gofal Iechyd Parhaus (gan gynnwys y berthynas â thaliadau uniongyrchol);
    - Ymgysylltu â swyddogion polisi sy'n arwain ar y rhaglen Dileu elw o ofal plant.
e) aelodau o Grŵp Technegol y Fframwaith Cenedlaethol a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth eang o blith ystod o randdeiliaid mewnol ac allanol gan gynnwys:
    - Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru
    - Y Dirprwy Gyfarwyddwr Dyfodol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru
    - Arweinwyr polisi ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol, Llywodraeth Cymru
    - Rhaglen Gweithrediaeth y GIG
    - Cyfarwyddwr Cynllunio, Llywodraeth Cymru
    - Cyfarwyddwr Trawsnewid (Gwasanaethau Plant a Gofal Cymdeithasol i Oedolion), Llywodraeth Cymru
    - Arolygiaeth Gofal Cymru
    - ADSS Cymru
    - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
    - Conffederasiwn GIG Cymru
    - Gofal Cymdeithasol Cymru.
    - Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol (y Bwrdd Gweithredol)
    - Fforwm Gofal Cymru
    - Prif Swyddog Gweithredol Solace

[3] https://www.llyw.cymru/gwella-trefniadau-gofal-cymdeithasol-gwaith-partneriaeth
[4] https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014
[5] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4

f) Adroddiad arolwg comisiynu: gwahoddodd Uned Fusnes ADSS Cymru bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol yng Nghymru i lenwi arolwg ar eu trefniadau comisiynu a chaffael. Nod yr arolwg oedd casglu gwybodaeth gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, enghreifftiau go iawn o'r hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd; beth y gellid ei ehangu, ei ailadrodd neu ei leihau, a rhwystrau rhag atal comisiynu da (gan gynnwys cynllunio, caffael a rheoli contractau). Ceisiwyd hefyd ddarganfod materion neu broblemau sylweddol yn ymwneud â chomisiynu gofal a allai ddod yn bwysig dros y blynyddoedd i ddod a'r prosesau caffael sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Cafwyd ymatebion gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol plant.
g) **Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru**[6] - Adroddiad y Grŵp Arbenigol
h) Digwyddiadau ymgynghori Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth 2023 a oedd yn cynnwys digwyddiad ymgysylltu ar-lein ar 28 Mehefin a digwyddiad wyneb yn wyneb ar 11 Gorffennaf, a fynychwyd gan ystod eang o gynrychiolwyr o lywodraeth leol, y GIG, y trydydd sector a sefydliadau sector annibynnol. Drwy gydol yr ymgynghoriad bu swyddogion hefyd yn cynnal cyfarfodydd â Cartrefi Cymunedol Cymru, gyda rhanddeiliaid allweddol ym maes tai yn bresennol, ac ag Age Cymru, gydag aelodau o'u fforwm ymgynghorol a grwpiau cenedlaethol pobl hŷn yn bresennol.
i) Yr ymateb i'r **ymgynghoriad ar y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth 2023**[7]**.** Daeth cyfanswm o 96 o ymatebion i law gan ystod eang o sefydliadau ac unigolion, ac roedd y grŵp mwyaf o'r rhain yn dod o'r categori Trydydd Sector / Gwirfoddol. Cafwyd ymatebion gan sefydliadau llywodraeth leol, cyrff y GIG, pob un o'r 7 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, darparwyr gofal cymdeithasol, cyrff sy'n cynrychioli darparwyr, cyrff cynrychioli proffesiynol eraill, comisiynwyr statudol, cyrff statudol annibynnol, undebau llafur, unigolion a sefydliadau academaidd. Roedd ymatebion manwl a chynhwysfawr gan ddarparwyr gofal cymdeithasol, Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant (4C); Gofal Cymdeithasol Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiynydd Plant Cymru, Barnardo's Cymru, Plant yng Nghymru a'r NSPCC yn arbennig o ddefnyddiol mewn perthynas ag ystyried effaith y Fframwaith Cenedlaethol ar wasanaethau gofal a chymorth plant a hawliau plant.
j) Canllawiau Comisiynydd Plant Cymru:
   - **Y FFORDD GYWIR - Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru - fframwaith egwyddorol ac ymarferol ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**[8]
   - **Y FFORDD GYWIR -Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru - fframwaith egwyddorol ac ymarferol ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**[9]

---

[6] https://www.llyw.cymru/sefydlu-gwasanaeth-gofal-chymorth-cenedlaethol
[7] https://www.llyw.cymru/y-rhaglen-ailgydbwyso-gofal-chymorth
[8] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2024/02/202402-Childrens-Commissioner-for-Wales-Right-Way-Welsh.pdf
[9] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2024/02/202402-Childrens-Commissioner-for-Wales-Right-Way-Social-Care-Welsh.pdf

Y Cod Ymarfer Rhan 2:
Mae'r diwygiadau arfaethedig i'r Cod Rhan 2 yn canolbwyntio ar ddau brif faes polisi:

- hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol
- ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu gan ddinasyddion yn y broses o gynllunio a gweithredu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol.

Mae'r naill a'r llall yn deillio o'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol yn adran 16 o'r Ddeddf. Mae'r Cod yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud ac y dylent ei wneud i gyflawni eu dyletswydd i hyrwyddo'r gwasanaethau a'r dulliau gweithredu hyn.

Mae'r ddyletswydd adran 16 yn gymwys i ofal a chymorth i oedolion a phlant, a rhaid i'r gofynion a'r canllawiau yn y Cod hefyd fod yn gymwys i'r ddau. Fodd bynnag, ers etholiad y Senedd yn 2021, mae polisi Llywodraeth Cymru o ran darparu gofal a chymorth i blant wedi cynnwys ymrwymiad i ddileu elw. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu fel rhaglen ar wahân a fydd yn cynnwys deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd newydd. Bydd effaith y polisi hwn ar blant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ac ar y sector plant yn gyffredinol, yn cael ei ystyried o dan y rhaglen Dileu Elw o Wasanaethau Plant, ac felly nid yw'n rhan o'r Asesiad Effaith hwn.

Mae'r gwaith diwygio hwn ar y Cod Rhan 2 hefyd yn cynnwys mân ddiwygiadau i'r bennod ar gynnal asesiadau poblogaeth, gan fanteisio ar y profiad a gafwyd wrth gynnal yr asesiadau hyn yn 2017 a 2022; ac i'r bennod ar wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar integredig.

**2.2. Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut rydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi'n effeithio ar wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol?**

Y Fframwaith Cenedlaethol
Nid ydym yn disgwyl i'r Fframwaith Cenedlaethol gael effeithiau negyddol andwyol ar unrhyw grwpiau o blant a phobl ifanc. Disgwylir i'r Fframwaith Cenedlaethol gael effaith gadarnhaol ar y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc; plant a phobl ifanc sydd angen gofal a chymorth neu sy'n eu derbyn; gofalwyr sy'n blant neu'n bobl ifanc; plant a phobl ifanc anabl, plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi; siaradwyr Cymraeg a phlant a phobl ifanc LHDTC+. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn gosod egwyddorion a safonau cenedlaethol a fydd yn sicrhau bod arferion comisiynu ledled Cymru yn dod yn fwy cyson a, drwy gyflawni'r egwyddorion a'r safonau a osodwyd, yn gwella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc yn y pen draw.

Y Cod Ymarfer Rhan 2:
Mae'r gofynion a'r canllawiau yn y Cod Ymarfer Rhan 2 wedi bod ar waith ers 2015, a daeth adolygiad gan y ddau Grŵp Gorchwyl a Gorffen (Ailgydbwyso'r Farchnad Gofal Cymdeithasol / Ymgysylltu a Llais) i'r casgliad eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol o ran nodi'r fframwaith ar gyfer gweithredu'r Rhan hon o'r Ddeddf yn lleol ac yn rhanbarthol. Dylai'r diwygiadau cyffyrddiad ysgafn a wneir i'r Cod gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc – er enghraifft, dylai cynnwys

babanod yn y grŵp poblogaeth â blaenoriaeth ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc annog awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ystyried anghenion y plant ieuengaf un a'u rhieni wrth gynnal eu hasesiadau anghenion poblogaeth. Yn fwy cyffredinol, dylai'r amlygrwydd cryfach a roddir i ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu, gan gynnwys yr angen i gynnwys lleisiau na chlywir yn aml, ysgogi mwy o ymwybyddiaeth o'r angen am weithgarwch yn y maes hwn.

Y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth

Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn berthnasol i bob oedran; fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl iddi gael effeithiau negyddol andwyol ar unrhyw grwpiau o blant a phobl ifanc. Disgwylir i'r Swyddfa Genedlaethol gael effaith gadarnhaol ar y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc: plant a phobl ifanc sydd angen gofal a chymorth neu sy'n eu derbyn; gofalwyr sy'n blant neu'n bobl ifanc; plant a phobl ifanc anabl, plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi; Siaradwyr Cymraeg a phlant a phobl ifanc LHDTC+. Bydd llais pobl yn greiddiol i'r Swyddfa Genedlaethol, gynnwys lleisiau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd mecanweithiau yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed a'u bod yn siapio datblygiadau cenedlaethol sy'n cael eu harwain gan y Swyddfa Genedlaethol.

**2.3. Pa waith yn cynnwys plant a phobl ifanc rydych chi wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.**

Y Fframwaith Cenedlaethol
Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei deall o'r ddogfen ymgynghori Ailgydbwyso Gofal a Chymorth yn 2023 i alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac ymateb iddo. At hynny, cyflwynodd nifer o sefydliadau gan gynnwys fforwm Cymru gyfan o rieni a gofalwyr, Plant yng Nghymru, Barnardo's Cymru, gwasanaethau plant awdurdodau lleol, NSPCC a Chonsortiwm Comisiynu Plant Cymru (4C) ymateb i ymgynghoriad 2023, a helpodd hynny ni i sicrhau bod barn, syniadau a theimladau'r plant a'r bobl ifanc y maent yn eirioli drostynt ac yn eu cynrychioli yn cael eu cynnwys a'u hystyried yn yr ymgynghoriad. Ystyriwyd yr ymatebion hyn i'r ymgynghoriad ac roeddent yn allweddol i'r gwaith o ddrafftio fersiwn derfynol y Fframwaith Cenedlaethol.

Y Cod Ymarfer Rhan 2
Y bwriad oedd diwygio'r Cod Rhan 2 yn ysgafn, gan ganolbwyntio ar gryfhau'r negeseuon allweddol ynghylch dyletswydd Adran 16 (pennod 4) a chydgynhyrchu (pennod 5 newydd). Cafodd y negeseuon ym mhennod 4 eu hystyried gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ailgydbwyso'r Farchnad Gofal Cymdeithasol, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o Gonsortiwm Comisiynu Plant Cymru (4C). Fel yr esboniwyd uchod, mae gwaith ar symud at fodelau cyflenwi dielw mewn gwasanaethau plant yn cael ei ddatblygu drwy raglen arall, felly y nod yma yn syml oedd sicrhau bod y negeseuon allweddol ym mhennod 4 yn parhau i fod yn addas ar draws yr ystod o wasanaethau gofal a chymorth (plant ac oedolion).

Mae'r bennod 5 newydd ar ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu yn defnyddio deunydd o bennod 4 yr hen god, gyda'r nod o roi mwy o amlygrwydd iddo. Cafodd y negeseuon hyn eu hystyried gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymgysylltu a Llais,

fel rhan o'i waith ehangach o ran ymgysylltu a chydgynhyrchu o fewn y partneriaethau rhanbarthol a gwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys cynrychiolwyr o Plant yng Nghymru, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, Voices from Care a sefydliadau trydydd sector eraill. Adborth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen oedd mai'r negeseuon allweddol, a oedd wedi'u seilio ar waith Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru a ffynonellau eraill uchel eu parch ac yn cynnwys cyfeiriadau at y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, oedd y rhai cywir; ac y byddai'r heriau gwirioneddol yn ymwneud â gweithredu yn hytrach na chyfeiriad a chanllawiau polisi cenedlaethol. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn parhau i gwrdd yn ystod 2024, i ystyried yr angen am adnoddau pellach i gefnogi'r cyrff partneriaeth wrth weithredu.

<u>Y Swyddfa Genedlaethol</u>
Wrth ymgynghori ar swyddogaethau Swyddfa Genedlaethol, er na wnaed unrhyw waith ymgysylltu penodol â phlant a phobl ifanc, cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei deall o'r ddogfen ymgynghori er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac ymateb iddo. Cyflwynodd sawl sefydliad, gan gynnwys Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, Plant yng Nghymru, Barnardo's Cymru, gwasanaethau plant awdurdodau lleol, NSPCC a 4C ymatebion i ymgynghoriad 2023 a bydd llawer o'r sefydliadau hyn wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc gan sicrhau bod eu barn, eu syniadau a'u teimladau yn cael eu cynrychioli yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried wrth lunio cylch gwaith terfynol a swyddogaethau'r Swyddfa Genedlaethol.

## 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

### 3.1. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith y mae eich polisi yn debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

<u>Y Fframwaith Cenedlaethol</u>
Y Papur Gwyn Ailgydbwyso Gofal a Chymorth[10] oedd yn sefydlu'r achos dros newid sydd wedi'i roi ar waith drwy'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. Mae effaith y Fframwaith Cenedlaethol wedi'i brofi drwy gydol y broses o ddatblygu polisi, a hynny'n benodol drwy'r ddau ymgynghoriad[11] ac yn ystod cyfarfodydd Grŵp Technegol y Fframwaith Cenedlaethol. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr allweddol o'r maes gwasanaethau plant, gan gynnwys comisiynwyr gwasanaethau plant a chynrychiolaeth o Gonsortiwm Comisiynu Plant Cymru a'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol. At hynny, rhoddwyd blaenoriaeth i ystyried yr awgrymiadau a'r materion a godwyd yn yr ymatebion ymgynghori manwl a dderbyniwyd oddi wrth y rhanddeiliaid canlynol mewn perthynas â chynnal a gwireddu hawliau plant, o ran sut y dylid diwygio'r Cod drafft, yr ymgynghorwyd arno yn 2023, i gyflawni ei nodau ac i gefnogi a hyrwyddo a chyflawni cymaint o effaith gadarnhaol â phosibl ar hawliau plant:

- Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant (4C);
- Gofal Cymdeithasol Cymru.

[10] https://www.llyw.cymru/gwella-trefniadau-gofal-cymdeithasol-gwaith-partneriaeth

- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Comisiynydd Plant Cymru
- Barnardo’s Cymru
- Plant yng Nghymru
- NSPCC

Mae'r adroddiad sy’n crynhoi’r ymatebion yn rhoi crynodeb manwl o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Codwyd nifer o themâu allweddol gan ymatebwyr gan gynnwys rhwystrau a allai lesteirio neu atal nodau ac amcanion y Fframwaith rhag cael eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys heriau sy'n ymwneud â chyllid ac adnoddau, gweithlu a gweithredu. Fodd bynnag, er bod ymatebwyr yn pwysleisio bod gweithredu'r Cod yn llwyddiannus yn ffactor hollbwysig o ran cyflawni ei nodau a'i amcanion, ac yn codi’r cwestiwn i ba raddau y byddai'r Fframwaith yn cyflawni ei nodau a faint o effaith gadarnhaol y byddai'r Cod yn ei chael ar ailgydbwyso gofal a chymorth a chynnal a gwireddu hawliau, nid oeddent yn codi unrhyw effeithiau negyddol penodol nac arwyddocaol ar blant a phobl ifanc.

Yn yr un modd, er bod trafodaethau manwl ar fanylion technegol y Fframwaith wedi’u cynnal yng nghyfarfodydd Grŵp Technegol y Fframwaith Cenedlaethol, gan gynnwys ar yr effaith ar wasanaethau plant, daeth y grŵp i'r casgliad yn gyffredinol y byddai'r Fframwaith yn cael effaith gadarnhaol fel y bwriadwyd. Yn benodol, nododd y grŵp gymhlethdod a her y broses bresennol o drawsnewid gwasanaethau plant a sut y bydd angen i'r Fframwaith addasu a newid yn y tymor canolig i'r tymor hir wrth i’r datblygiadau hynny ddigwydd yn y farchnad darparwyr, i sicrhau ei fod yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf.

Mae gan y Fframwaith yr un nodau ac amcanion â'r Ddeddf, yr ystyrir hi’n gyffredinol fel y ddeddfwriaeth gywir os caiff ei gweithredu'n effeithiol. Mae rhai o'r rhwystrau i'r gweithredu hwnnw yn codi o’r diffyg cysondeb a’r cymhlethdod wrth gomisiynu gofal a chymorth. Felly, oherwydd bod y Fframwaith yn anelu at leihau cymhlethdod, gwella cysondeb ac ailgydbwyso gofal a chymorth i ganolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau yn hytrach nag ar y gost, disgwylir iddo, o'i weithredu'n effeithiol, chwalu rhai o'r rhwystrau hynny a helpu partneriaid statudol i wireddu nodau'r Ddeddf.

Cododd rhai o’r ymatebwyr i’r ymgynghoriad bryderon y gallai fframwaith cenedlaethol statudol sy'n llesteirio hyblygrwydd partneriaid statudol i ymateb yn y ffordd iawn i anghenion eu poblogaethau lleol gael effaith negyddol ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r Cod yn pwysleisio'n benodol bwysigrwydd deall angen cymunedau a phoblogaethau lleol ac mae'n rhoi hyblygrwydd i bartneriaid statudol weithredu egwyddorion a safonau'r Cod wrth ymateb i anghenion ac amodau lleol.

Nododd ymatebwyr eraill i’r ymgynghoriad bwysigrwydd deall anghenion penodol ac unigryw plant a phobl ifanc. Drwy osod yr egwyddor 'Yr hyn sy'n bwysig' wrth wraidd y Cod, ei nod yw sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hymgorffori ym mhob agwedd ar y broses gomisiynu. Dylai’r gofynion yn y Cod i bartneriaid statudol ddeall yr anghenion hyn gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mynegodd rhai o’r ymatebwyr i’r ymgynghoriad bryderon am y capasiti neu'r gallu cyfyngedig o fewn timau comisiynu statudol i gasglu, dadansoddi a dehongli tystiolaeth berthnasol yn gywir ac yn ystyrlon, yn enwedig o ran comisiynu ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae data wedi bod yn ffactor hanfodol i'w ystyried drwy gydol datblygiad polisi'r Fframwaith ac roedd data yn thema allweddol a godwyd gan ymatebwyr yn ystod ymgynghoriad 2023. Er yn cydnabod bod agenda ddata ehangach yn cael ei datblygu y tu allan i gwmpas y Fframwaith mae'r Cod, serch hynny, yn cynnwys darpariaeth i gomisiynwyr annog eu darparwyr i gwblhau a dychwelyd casgliad data gweithlu blynyddol Gofal Cymdeithasol Cymru ac i ddefnyddio a diweddaru eu gwybodaeth yn yr adnodd olrhain capasiti gofal a chymorth. At hynny, mae’r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid statudol weithio gyda darparwyr i annog a chefnogi eu defnydd o atebion digidol ac i sicrhau bod gan y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau fynediad at y rhyngrwyd a dyfeisiau digidol yn ôl yr angen. Mae'r darpariaethau hyn yn ffyrdd pwysig y mae'r Cod yn helpu i gryfhau a chefnogi'r defnydd o ddata i wella canlyniadau llesiant a chynyddu mynediad at wybodaeth a gwasanaethau i blant a phobl ifanc, sy'n unol â'u hawliau.

Roedd Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant o'r farn bod safonau'r Cod yn gadarnhaol, gan adeiladu ar lawer o'r safonau presennol sy'n hysbys ac y cytunwyd arnynt ymhlith comisiynwyr awdurdodau lleol. Roeddent yn teimlo y byddai nodi'r rhain ar sail genedlaethol mewn cod statudol yn cael effaith gadarnhaol. Un o nodau ffurfiannol y Cod yw rhoi'r gefnogaeth ddeddfwriaethol sydd ei hangen ar y safonau a'r egwyddorion sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan lawer o gomisiynwyr ledled Cymru i'w gwreiddio'n genedlaethol mewn prosesau ac ymarfer i wella cysondeb.

Teimlai'r 4C mai hyblygrwydd wrth weithredu a chaniatáu arferion presennol sy'n cyflawni'n effeithiol ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol yw'r dull a ffefrir i leihau'r risg o ddyblygu a tharfu diangen ar drefniadau comisiynu o ansawdd da.

Mynegodd y 4C y dylid bod yn ofalus ynghylch sut y bydd y Cod yn cymhwyso ac yn cyd-fynd â'r agenda trawsnewid mewn gwasanaethau plant ac mai ffactor allweddol wrth weithredu'r Cod yn llwyddiannus fydd defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r trawsnewid mewn gwasanaethau plant i addasu a diweddaru fersiynau o’r Cod a’i egwyddorion a'i safonau yn y dyfodol.

Nodwyd ymhellach bod y rhan fwyaf o randdeiliaid y consortiwm yn dweud bod cyllid a heriau'r gweithlu, cyllidebau integredig ac adnoddau cyfun yn rhwystro cyflawni safonau yn effeithiol ac yn gyson ac mai'r prif faes cymhlethdod yw'r prosesau gwneud penderfyniadau a arweinir gan sefydliadau yn bennaf ac argaeledd adnoddau. Roeddent yn galw am gryfhau'r safonau Cod ymhellach i helpu i gomisiynu gofal a chymorth integredig i blant ar ben uchaf y sbectrwm angen.

Roedd y 4C yn teimlo bod gofynion y Cod yn gadarnhaol ac yn uchelgeisiol o safbwynt pob oed ac yn croesawu'r ethos o ddefnyddio dull seiliedig ar hawliau plant wrth gomisiynu gofal a chymorth i blant a phobl ifanc sydd, yn eu barn hwy, yn sylfaen gadarn ar gyfer arferion da. At hynny, mae cysondeb yr arferion comisiynu y maent yn eu cyflawni gan ddefnyddio hyfforddiant, pecynnau cymorth, canllawiau a chymorth uniongyrchol gan awdurdodau lleol yn ôl y galw ar gyfer gwasanaethau comisiynu yn arwydd cadarn y dylai'r pecyn cymorth gael effaith gadarnhaol fuddiol

ar sut y mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu ac, yn ei dro, ar ganlyniadau llesiant plant a phobl ifanc.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai ffocws a darpariaethau'r Cod ar gydgynhyrchu, h.y. gwasanaethau sy'n cael eu cynllunio, eu darparu a'u gwerthuso ar y cyd, arwain at wneud penderfyniadau mwy gwybodus a gwell. Nodwyd y bydd modelau cydgynhyrchu gyda phlant a phobl ifanc yn wahanol i fodelau gwasanaethau oedolion. Felly, bydd y pecyn cymorth yn ffactor allweddol o ran cefnogi comisiynwyr i wneud hyn yn iawn, ac wrth wneud hynny bydd yn cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ac ar eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant.

Mae comisiynu yn darparu gwasanaethau gofal a chymorth sydd,  ar y lefel fwyaf sylfaenol, yn cael eu cynllunio a'u darparu i amddiffyn a diogelu plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth, esgeulustod, gwahaniaethu, camfanteisio a mathau eraill o niwed.

Bwriad gwneud plant a phobl ifanc yn ganolog i'r broses o gynllunio gwasanaethau yw eu grymuso i wneud penderfyniadau am eu bywydau. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid statudol werthuso gwasanaethau gofal a chymorth ar y cyd â phlant a phobl ifanc, gan sicrhau ymhellach felly bod eu lleisiau'n cael eu clywed drwy alluogi i unrhyw bryderon neu gwynion gael eu codi a'u datrys.

Drwy ei nodau i ailgydbwyso gofal a chymorth, bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn helpu i wireddu nodau'r Ddeddf ymhellach, h.y. gwella llesiant. Felly, rydym yn disgwyl i'r Fframwaith Cenedlaethol gael effaith gadarnhaol ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ar y sail y bydd yn sicrhau cysondeb mewn arferion comisiynu ac felly'r nod o wella ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, mae'n ofynnol i bob darparwr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gynnal asesiadau poblogaeth a chyhoeddi cynlluniau ardal sy'n nodi sut y maent yn diwallu anghenion grwpiau blaenoriaeth penodol, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae amcanion cyffredinol y Fframwaith Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r Cod Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) a'r **Canllawiau Statudol Rhan 9 ar bartneriaeth**[12] sy'n helpu partneriaid statudol i gyflawni'r asesiadau hyn ac felly gellir dweud bod y Fframwaith Cenedlaethol yn effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc.

Bydd effeithiolrwydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cael ei werthuso i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion ac yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth. Er mwyn helpu i sicrhau ei effeithiolrwydd parhaus, bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cael ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl yr angen bob dwy flynedd.

Fel y nodir yn y Cod, mae gwasanaethau gofal a chymorth yn bwysig ar gyfer hyrwyddo a chyflawni cydraddoldeb a hawliau dynol ac un o nodau comisiynu yw sicrhau hawliau pobl i allu mynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau, cymryd

[12] https://www.llyw.cymru/trefniadau-partneriaeth-ar-gyfer-darparu-gofal-chymorth-canllawiau

rhan mewn penderfyniadau a chael eu cefnogi drwy eiriolaeth i'w galluogi i wneud hynny. Oherwydd mae drwy gomisiynu y mae partneriaid statudol yn mynd ati i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf, gan gynnwys rhoi sylw i CCUHP, mae'r comisiynu eisoes wedi'i ategu gan hawliau. Nod y Cod yw cryfhau hyn yng nghyd-destun comisiynu ac mae'r safonau a'r egwyddorion wedi'u datblygu i helpu i sicrhau y gall partneriaid statudol helpu i wireddu hawliau plant a gwella eu canlyniadau llesiant. Drwy ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid statudol ymgorffori'r egwyddorion hyn yn eu harferion comisiynu a chyflawni a chynnal y safonau hyn rydym yn disgwyl i'r Fframwaith Cenedlaethol gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc, yn enwedig o ran eu llais a'u rheolaeth, drwy sicrhau bod partneriaid statudol yn datblygu ffyrdd hygyrch i blant a phobl ifanc fod yn ganolog i'r gwaith o gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau gofal a chymorth yn seiliedig ar 'yr hyn sy'n bwysig' iddynt.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn cynnwys yr egwyddor ganlynol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth:

> **Gwerth yw "yr hyn sy'n bwysig"**: Mae gwerth yn fwy na chost; mae'n ofal a chymorth diogel ac o ansawdd da sy'n sicrhau canlyniadau sy'n bwysig i bobl ac yn gwella gwerth cymdeithasol. Mae gwerth cyhoeddus yn deillio o gyflawni'r holl gyfrifoldebau cyfreithiol, caffael a rheoleiddiol gan gynnwys cydraddoldebau, hawliau dynol, egwyddorion gwaith teg ac ystyriaethau economaidd, cymdeithasol, technegol ac amgylcheddol.

Bwriad yr egwyddor hon yw drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG gaffael gwasanaethau nid yn unig yn seiliedig ar gost ond gan ystyried yr elfennau eraill hefyd, bydd yr egwyddor (a'r egwyddorion a'r safonau eraill) yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol gan gynnwys hawliau plant.

Yn yr un modd, nod nifer o'r safonau yn y Fframwaith yw cefnogi a hyrwyddo hawliau plant, gan gynnwys:

- **Safon 1:** Mae disgwyl i **wreiddio gwerthoedd ac egwyddorion y Ddeddf ym mhob gweithgaredd comisiynu** drwy gefnogi nodau'r Ddeddf gael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo a gwireddu hawliau plant. Mae'r Cod yn ailadrodd pwysigrwydd deall anghenion poblogaeth trwy asesiadau anghenion poblogaeth ac mae'n cyd-fynd â'r codau sy'n rhoi arweiniad penodol a chynhwysfawr ar asesiadau anghenion poblogaeth, sydd gyda'i gilydd wedi'u bwriadu i hyrwyddo hawliau plant.

- **Safon 2:** Mae **sicrhau sgiliau, adnoddau a chapasiti digonol** yn canolbwyntio ar wasanaethau cymorth ataliol. Mae atal yn agwedd gofal ar gynnal hawliau plant. Mae lleihau'r angen am ofal a chymorth yn y dyfodol yn cyfrannu'n uniongyrchol at egwyddorion cadw plant yn ddiogel ac yn iach.

- **Safon 3:** Mae **defnyddio data i gyflawni canlyniadau** yn canolbwyntio ar sicrhau bod comisiynu'n seiliedig ar ddata ystyrlon a chywir. Y bwriad yw, drwy ddeall materion, anghenion a gofynion presennol ac yn y dyfodol, y gall awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG gymryd y

camau cywir i ddatrys problemau a diwallu anghenion a galw. Y bwriad yw, drwy ddeall materion, anghenion a gofynion y presennol a’r dyfodol, y gall awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG gymryd y camau cywir i ddatrys problemau a diwallu anghenion a galw. Mae'r safon hon yn cysylltu'n gryf â'r **Cod Ymarfer Rhan 2 ar Swyddogaethau Cyffredinol**[13]**.** Drwy ddeall anghenion poblogaeth leol a'r defnydd effeithiol o asesiadau anghenion poblogaeth ac adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad, gellir datblygu'r gwasanaethau cywir. Y bwriad yn y pen draw yw y bydd y Cod yn helpu partneriaid i gadw at eu dyletswyddau o dan y **Confensiwn Cenedlaethol Unedig ar Hawliau'r Plentyn**[14] drwy gadw plant yn saff a diogel.

- **Safon 4:** Mae **dewis gwasanaethau** yn ymwneud â phenderfyniadau ar ddarparu gwasanaethau yn fewnol neu drwy ddarparwyr allanol. Mae'n adeiladu ar safon 3 oherwydd os yw partneriaid yn gallu nodi angen, yna maent, o dan safon 4, mewn sefyllfa well i gaffael y gwasanaeth cywir sy'n cynnwys cefnogi'r defnydd o ddarpariaeth trydydd sector y dangoswyd ei fod yn cael effaith gadarnhaol gan ei fod yn cysylltu'n uniongyrchol â'r egwyddor **'yr hyn sy’n bwysig'** ac yn gallu cynnig gwasanaethau mwy ystwyth ac amrywiol sydd yn ei dro yn golygu y gellir diwallu anghenion plant. Mae diwallu anghenion plant (a thrwy hynny eu hawliau) a darparu'r hyn sy'n bwysig yn dibynnu ar bartneriaid yn cael ystod o wasanaethau i alw arnynt ac mae hyn yn cynnwys defnyddio’r trydydd sector a'r buddion penodol a all ddod yn sgil hynny. Mae hyn yn tueddu i weithio'n dda mewn meysydd atal ac ymyrraeth gynnar a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar hawliau plant os yw'r nodau a fwriadwyd yn cael eu gwireddu.

- **Safon 5:** Mae **Mesur Gwerth** yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid statudol fesur 'gwerth' yn gyson yn seiliedig ar ansawdd a phrofiadau a chanlyniadau pobl o wasanaethau yn ogystal ag "arfer hawliau". Bwriad y safon hon yw bod gan bartneriaid statudol ddyletswydd statudol (ochr yn ochr â'u dyletswyddau presennol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb allweddol arall) i'w hystyried yn benodol yng nghyd-destun comisiynu sut mae hawliau plant yn cael eu gwireddu.

- **Safon 10:** Mae **cydraddoldebau a hawliau dynol** yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid statudol ddefnyddio dull rhagweithiol o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo a chyflawni hawliau dynol. Mae'r safon hon yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i bartneriaid statudol, wrth gomisiynu gwasanaethau sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd, roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau[15] (CCUHPD). Bwriad hyn yw cryfhau gweithrediad CCUHP ac UNCRPD yn neddfwriaeth Cymru drwy adeiladu ar ac atgyfnerthu'r ddyletswydd gyffredinol

[13] https://www.llyw.cymru/swyddogaethau-gofal-cymdeithasol-cyffredinol-awdurdodau-lleol-cod-ymarfer
https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-child
[15] https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-persons-disabilities

yn y Ddeddf i roi sylw i CCUHP. At hynny, mae Safon 10 yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid statudol gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer ymarferion comisiynu a chaffael gyda'r bwriad o helpu i brofi bod yr holl ddyletswyddau cydraddoldeb perthnasol yn cael eu cyflawni a rhoi'r dystiolaeth a'r data sydd eu hangen i wneud y newidiadau angenrheidiol i arferion comisiynu lle mae bylchau neu feysydd i'w gwella. At hynny, mae Safon 10 bellach, gan ymateb i ymatebion allweddol mewn ymgyngoriadau â rhanddeiliaid, wedi'i diwygio i gynnwys gofyniad i bartneriaid statudol ystyried:

- 'Y FFORDD GYWIR - Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru**'** y disgwylir iddo gael effaith gadarnhaol iawn ar hyrwyddo a gwireddu hawliau plant o ystyried y wybodaeth fanwl y mae'n ei darparu o ran ffyrdd ymarferol a gweithredol o ymgorffori hawliau plant a'u cymhwyso i ddarpariaeth gofal a chymorth; a
- Y **Siarter Rhianta Corfforaethol**[16] sydd â'r bwriad o gefnogi ymhellach ffyrdd i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru i gyflawni eu potensial llawn.

**Yn olaf, mae Safon 10** yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid statudol geisio dod o hyd i ffyrdd y gellir estyn eu dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol i ddarparwyr drwy gontractau a manylebau gwasanaethau. Mae hon yn ffordd bwysig y gall y fframwaith helpu i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwreiddio a'u gwireddu drwy'r system gofal a chymorth gyfan. Bydd y pecyn cymorth yn chwarae rhan bwysig o ran cyflawni hyn drwy ddarparu cymalau contract cydraddoldeb sydd wedi'u datblygu y dylai comisiynwyr eu defnyddio yn eu contractau gyda darparwyr.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol hefyd yn cynnwys yr egwyddor ganlynol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth:

> '**Cynllunio ar gyfer yr angen presennol a chenedlaethau'r dyfodol**: Mae comisiynu ar gyfer canlyniadau gwell yn weithgaredd tymor canolig i hirdymor; mae cynllunio'n gofyn am lunio rhagolygon, a dylai y ddarpariaeth ganolbwyntio ar atal (gweler adran 15 o'r Ddeddf) a chynaliadwyedd (gan gynnwys ymrwymiadau carbon).'

Bwriad yr egwyddor hon yw y bydd ei gwneud yn ofynnol i gomisiynwyr gael gwell dealltwriaeth o'r galw yn y dyfodol yn helpu i gefnogi hawliau plant drwy sicrhau bod y gwasanaethau cywir ar gael ar gyfer galw yn y dyfodol. Dylai cael y ddarpariaeth o wasanaethau gofal a chymorth yn iawn i blant gyflawni'r budd a fwriedir, sef atal yr angen am wasanaethau yn y dyfodol.

*Erthyglau CCUHP*
Mae gwasanaethau gofal a chymorth a gomisiynir gan awdurdodau lleol a'r GIG yn helpu i gefnogi goroesiad a datblygiad iach plant yn unol ag Erthygl 6, cymorth

[16]https://www.llyw.cymru/siarter-rhianta-corfforaethol

meddygol a chymdeithasol i blant ag anableddau yn unol ag Erthygl 23, a darparu gofal iechyd i blant yn unol ag Erthygl 24.

O ran Erthyglau 12 a 13, mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn helpu i sicrhau y defnyddir dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran gwasanaethau gofal a chymorth, gan roi gofynion a dewisiadau'r unigolyn wrth wraidd y system i gyflawni'r canlyniadau y dywedant eu bod yn bwysig iddynt, yn hytrach na threfnu gwasanaethau i bobl ar sail yr hyn sydd ar gael, fel sy’n digwydd yn aml ar hyn o bryd.

Bydd egwyddorion a safonau'r Fframwaith Cenedlaethol yn helpu i gyflawni hyn drwy roi pwyslais pellach ar roi mwy o lais i unigolion yn y gwasanaethau y maent yn eu derbyn a'r gwahanol opsiynau gofal sydd ar gael i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn pwysleisio pwysigrwydd cynaliadwyedd hirdymor y sector gofal cymdeithasol gan gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol. Y bwriad yw sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru ac wrth wneud hynny bydd yn cefnogi'r chwe Erthygl uchod yn uniongyrchol.

Trawsnewid gwasanaethau plant

Drwy bennu egwyddorion a safonau ar gyfer arferion comisiynu, bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cyd-fynd â'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y **Rhaglen dileu elw o ofal plant syn derbyn gofal**[17] drwy atgyfnerthu'r angen i weithio'n lleol ac yn rhanbarthol i ddatblygu modelau newydd o wasanaethau gofal a chymorth gan gynnwys mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol a all wireddu nodau'r Ddeddf.

Roedd yn amlwg o Ymgynghoriad Ailgydbwyso 2023 y bydd llwyddiant y Fframwaith Cenedlaethol yn dibynnu ar sut y caiff ei weithredu. Nododd rhai o'r ymatebwyr fod angen i’r Fframwaith Cenedlaethol gynnwys mwy o fanylion ynghylch sut y gall arferion comisiynu lynu wrth yr egwyddorion a'r safonau, a’u bodloni. Cynlluniwyd y Fframwaith Cenedlaethol fel bod y gofynion deddfwriaethol a'r canllawiau wedi’u cynnwys yn y Cod, ond bod y manylion, yr arferion nodedig ac ati a fydd yn helpu comisiynwyr i weithredu'r gofynion hynny, i’w gweld yn y pecyn cymorth. Er enghraifft, bydd hyn yn cynnwys canllawiau manwl wedi’u datblygu ar y cyd â'r **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**[18] ynghylch sut y gellir ymgorffori ac ystyried hawliau plant ym mhob rhan o'r cylch comisiynu. Bydd y gwaith o ddatblygu'r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys ystyried sut y gellir ymgorffori Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant mewn dogfennau gwerthuso tendrau ac ati.

Bydd y pecyn cymorth yn chwarae rhan bwysig mewn maes effaith allweddol sy'n ymwneud â chapasiti neu allu cyfyngedig o fewn timau comisiynu i gasglu, dadansoddi a dehongli tystiolaeth berthnasol ynghylch gwasanaethau plant. Bydd datblygu'r pecyn cymorth a'r adolygiad dwy flynedd o'r Cod yn cyd-fynd â datblygiadau ehangach o ran casglu data yn y system gofal cymdeithasol.

---

[17] https://www.llyw.cymru/dileu-elw-o-ofal-plant-syn-derbyn-gofal-html
https://www.equalityhumanrights.com/cy

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn cynnwys darpariaethau penodol sydd wedi'u cynllunio i wella a chefnogi'r modd y cefnogir ac y gwireddir hawliau plant. Mae hyn yn cynnwys canllawiau statudol o dan safon 10 i geisio "dod o hyd i ffyrdd y gellir estyn eu dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol i ddarparwyr drwy gontractau a manylebau gwasanaethau" ac i "gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer ymarferion comisiynu a chaffael".

Bydd y Swyddfa Genedlaethol ar gyfer gofal a chymorth yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod y Fframwaith Cenedlaethol yn helpu i wella canlyniadau i'r rhai sydd â'r angen mwyaf, gan gynnwys plant a phobl ifanc, ac yn eu plith grwpiau o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

Er mwyn i'r Cod gael effaith ystyrlon ar hawliau a chydraddoldeb, mae'n allweddol ei fod yn cael ei weithredu'n effeithiol. Felly, bydd y pecyn cymorth a fydd yn adnodd ar-lein i gomisiynwyr a sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu i sicrhau y gall comisiynwyr ymgorffori hawliau plant yn effeithiol yn eu harferion comisiynu. Bydd hyn yn eu helpu i lynu wrth y dyletswyddau yn CCUHP i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a sicrhau hawliau dynol. Bydd gan y pecyn cymorth amrywiaeth o adnoddau, er enghraifft dogfennau cyfarwyddyd, enghreifftiau o arferion da neu nodedig a chymalau ar gyfer templedi contractau, a bydd llawer ohonynt yn cefnogi hyrwyddo a gwireddu hawliau plant.

Er y bydd comisiynwyr, o dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol presennol, eisoes yn ymgorffori hawliau plant yn eu harferion, bydd darpariaethau'r Cod a'r canllawiau yn y pecyn cymorth yn helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r dyletswyddau hyn trwy roi cyd-destun i'r hyn y mae'n rhaid ei wneud yn benodol wrth gomisiynu gofal a chymorth.

Nod y Cod hefyd yw cryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg sy'n helpu i gefnogi'r hawliau yn Erthygl 30 i blant siarad eu hieithoedd eu hunain.

<u>Y Cod Ymarfer Rhan 2</u>

Mae'r gofynion a'r canllawiau allweddol sy'n ymwneud yn benodol â phlant a phobl ifanc yng Nghod Rhan 2 2015 wedi'u trosglwyddo i'r Cod newydd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, y dyletswyddau cyffredinol a'r ddyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Pennod 1); yr angen i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant, mewn ffyrdd priodol, wrth baratoi'r asesiadau anghenion poblogaeth (Pennod 2); pwysigrwydd gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar i blant a theuluoedd (Pennod 3); a chynnwys plant a phobl ifanc wrth gynllunio'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth (Pennod 6).

Ym Mhennod 1, mae anghenion datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol plant wedi'u cynnwys ymhlith y canlyniadau llesiant cenedlaethol; a gwneir yn glir (wrth asesu anghenion unigolion) y dylid cefnogi plant i nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt mewn ffyrdd sy'n briodol i'w hoedran a'u dealltwriaeth (mae canllawiau pellach ar hyn yn y Cod Ymarfer Rhan 3 ar Asesu Anghenion, a gyhoeddwyd yn 2015). Mae'r adran ar ddyletswyddau cyffredinol yn nodi'r dyletswyddau sy'n gymwys pan fo personau yn arfer swyddogaethau o dan Ddeddf 2014 mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya, gan

gynnwys cwpl o ddyletswyddau trosfwaol penodol sy'n ymwneud â phlant. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r gofynion a'r canllawiau yn y bennod hon o'r Cod Rhan 2.

Gwnaed rhai newidiadau i Bennod 2 ar asesiadau anghenion poblogaeth. Yn benodol, mae'r rhestr o grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth (a elwid gynt yn themâu craidd penodol), y mae'n rhaid cynnwys eu hanghenion yn benodol yn yr asesiadau anghenion poblogaeth, wedi'i hehangu i gynnwys babanod. Mae anghenion iechyd hefyd wedi'u hychwanegu at ofal a chymorth. Mae gofynion eraill sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc wedi cael eu cadw: wrth lunio eu hasesiadau anghenion poblogaeth rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd fod â threfniadau arbennig ar waith i ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn llwyddiannus â phlant sydd â phrofiad o ddefnyddio gwasanaethau gofal a chymorth (a'u rhieni a gofalwyr di-dâl); a rhaid i'r asesiadau hefyd ystyried anghenion gofal a chymorth poblogaethau o fewn yr ystad ddiogeledd, gan gynnwys plant yn y carchar, mewn llety cadw ieuenctid, mewn mangre gymeradwy ac mewn llety mechnïaeth.

Mae Pennod 3 o'r Cod Rhan 2 yn nodi'r gofynion ar awdurdodau lleol a phartneriaid i ddarparu neu drefnu ystod o wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar integredig i gyflawni'r dibenion a nodir yn adran 15 o Ddeddf 2014 (sy'n cynnwys dibenion sy'n ymwneud yn arbennig â phlant). Mae Pennod 3 hefyd yn cynnwys adran benodol ar wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar i blant a theuluoedd. Mae hyn wedi'i ddiweddaru i gynnwys datblygu'r chwe model gofal o dan y Gronfa Integreiddio Ranbarthol, mewn perthynas ag atal plant mewn angen rhag mynd i mewn i'r system ofal a darparu gwasanaethau gofal a chymorth integredig ar draws gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg i blant â phrofiad o ofal sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth.

Mae Pennod 4 yn ymdrin â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector, ac mae hyn yn gymwys i wasanaethau plant a gwasanaethau oedolion. Fel yr esboniwyd uchod, newid allweddol sy'n effeithio ar wasanaethau plant a phobl ifanc yw'r bwriad polisi i ddileu elw o wasanaethau plant. Disgwylir y bydd hyn yn cael effaith fawr ar y sector gofal cymdeithasol plant, ond nid yw hyn wedi'i archwilio wrth adolygu'r Cod Rhan 2 gan ei fod yn cael ei ddatblygu fel rhaglen ar wahân a bydd yn cynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth newydd. Mae'r negeseuon eang am y ddyletswydd adran 16 i hyrwyddo cwmnïau cydweithredol, mentrau cymdeithasol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector (Pennod 4) yn dal i fod yn berthnasol ar draws y maes cyfan (gwasanaethau plant ac oedolion), ond bydd y cyd-destun ar gyfer gweithredu yn wahanol ar gyfer gofal plant yn y dyfodol.

Nod y Bennod 5 newydd sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu yw galluogi ystod fwy o bobl i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a darparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae'r gofynion a'r canllawiau yn gymwys ar draws gofal cymdeithasol, gan gynnwys ymgysylltu ag oedolion, plant a phobl ifanc, a gofalwyr di-dâl, y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol a'r rhai y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol. Ystyrir bod cydgynhyrchu'n hanfodol ar draws pob cam o'r cylch comisiynu strategol, o gynllunio a dylunio, i gyflwyno, monitro a gwerthuso. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y gofynion a'r canllawiau yn y bennod hon, gan gynnwys pwysigrwydd Safonau Cyfranogiad

Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc, yn gadarn ac yn glir, er bod heriau'n parhau i fod yn benodol o ran adnoddau.

Ni wnaed unrhyw newidiadau i Bennod 6 ar y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth, sy'n cynnwys gofynion sy'n ymwneud â gwybodaeth, cyngor a chymorth hygyrch i blant, pobl ifanc ac eraill sydd angen cymorth ychwanegol, yn ogystal â chynnwys plant wrth ddylunio'r gwasanaeth.

Y Swyddfa Genedlaethol
Gan y bydd swyddogaethau gweithredol cychwynnol y Swyddfa Genedlaethol yn ymwneud yn bennaf â gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol, mae'r effaith o ran polisi yr un fath ag a amlinellir uchod.

**3.2. Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y'u nodir yn erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi chi.**

Nod y Fframwaith Cenedlaethol yw gwella cysondeb comisiynu gofal a chymorth a fydd yn arwain at safoni dull gweithredu a gwella canlyniadau llesiant unigolion. Felly, bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn helpu i wella hawliau plant fel y'u nodir yn erthyglau CCUHP drwy gyfrannu at y ffordd y mae hawliau ac anghenion plant yn cael eu diwallu drwy ddarparu gofal a chymorth, gan gynnwys bod yn ddiogel, yn iach ac yn hapus; heb unrhyw wahaniaethu yn eu herbyn; sicrhau bod eu budd gorau wedi'i ddiogelu; cael y pethau sydd eu hangen arnynt i oroesi a datblygu a chael dweud eu dweud am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i CCUHP wrth arfer eu swyddogaethau. Gellir gweld y ddyletswydd hon yn y dyletswyddau cyffredinol y mae'r Ddeddf yn eu cynnwys i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Roedd consensws eang gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad y bydd y Fframwaith, os caiff ei weithredu'n effeithiol, yn helpu i gyfrannu at wireddu nodau'r Ddeddf.

Mae erthyglau canlynol CCUHP wedi'u nodi fel y rhai mwyaf perthnasol i'r Fframwaith Cenedlaethol:

| Enw’r erthygl a disgrifiad ohoni | Gwella a hyrwyddo / herio ac atal |
|---|---|
| **Erthygl 3**: Dylai pob sefydliad sy’n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn. | **Gwella:** Prif nod y Fframwaith Cenedlaethol yw darparu gwasanaethau gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc i wella a bodloni eu canlyniadau llesiant. Mae nod arfaethedig yr erthygl hon o weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn wedi'i ymgorffori'n llawn yn narpariaethau'r Codau gan gynnwys yr egwyddorion a'r safonau y mae'n eu gosod ar gyfer arferion comisiynu. |
| **Erthygl 6:** Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.<br><br>**Erthygl 23:** Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal a chymorth arbennig fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.<br><br>**Erthygl 24:** Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddynt gadw’n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. | **Gwella:** Mae'r gwasanaethau gofal a chymorth a gomisiynir gan awdurdodau lleol a’r GIG yn helpu i gynorthwyo plant i oroesi a datblygu’n iach yn unol ag Erthygl 6, cymorth meddygol a chymdeithasol i blant ag anableddau yn unol ag Erthygl 23, a darparu gofal iechyd i blant yn unol ag Erthygl 24.<br><br>Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn pwysleisio pwysigrwydd cynaliadwyedd hirdymor y sector gofal cymdeithasol gan gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol. Y bwriad yw sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru ac wrth wneud hynny bydd yn cefnogi'r erthygl hon yn uniongyrchol. |
| **Erthygl 12:** Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw, ac i’w barn gael ei hystyried<br><br>**Erthygl 13:** Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw’r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill. | **Gwella:** O ran Erthyglau 12 a 13, mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn helpu i sicrhau y defnyddir dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran gwasanaethau gofal a chymorth, gan roi gofynion a dewisiadau'r unigolyn wrth wraidd y system i gyflawni'r canlyniadau y dywedant eu bod yn bwysig iddynt, yn hytrach na threfnu gwasanaethau i bobl ar sail yr hyn sydd ar gael, fel sy’n digwydd yn aml ar hyn o bryd.<br><br>Mae Safon 1 y Cod yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid statudol ddangos tystiolaeth bod comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth yn cael ei gydgynhyrchu [ei ddylunio, ei ddarparu a’i werthuso ar y cyd] ag unigolion sydd angen gofal a |

| Enw’r erthygl a disgrifiad ohoni | Gwella a hyrwyddo / herio ac atal |
|---|---|
| | chymorth. Mae'r egwyddor sylfaenol hon i gynnwys plant a phobl ifanc yn ganolog i’r Cod ac mae'n dangos sut mae’n ceisio cynnal hawliau plant a phobl ifanc gan gynnwys yr hawliau yn yr erthygl hon.<br><br>Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn pwysleisio pwysigrwydd cynaliadwyedd hirdymor y sector gofal cymdeithasol gan gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol. Y bwriad yw sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru ac wrth wneud hynny bydd yn cefnogi'r erthygl hon yn uniongyrchol. |
| **Erthygl 19:** Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a’u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy’n gofalu amdanynt.<br><br>**Erthygl 20:** Rhaid i blant na all eu teulu eu hunain ofalu amdanynt gael gofal priodol gan bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith.<br><br>**Erthygl 32:** Dylai'r Llywodraeth amddiffyn plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai niweidio eu hiechyd neu eu haddysg.<br><br>**Erthygl 33:** Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o amddiffyn plant rhag cyffuriau peryglus.<br><br>**Erthygl 34:** Dylai'r Llywodraeth amddiffyn plant rhag cam-drin rhywiol.<br><br>**Erthygl 35:** Dylai'r Llywodraeth sicrhau na chaiff plant eu cipio na’u gwerthu. | **Gwella:** Drwy anelu at wella effeithiolrwydd a chysondeb comisiynu, disgwylir i'r Fframwaith gyfrannu at wireddu nodau'r Ddeddf i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc a gwella a bodloni canlyniadau llesiant. Felly, bydd y Cod yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth sy'n cadw plant yn saff, yn ddiogel ac yn rhydd rhag niwed. Mae'r gwasanaethau ataliol y bydd y Cod yn eu defnyddio hefyd yn elfen hanfodol arall o gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel rhag niwed. Bydd yr hawliau a'r egwyddor ‘yr hyn sy'n bwysig’ sydd wedi'i hymgorffori yn y Cod yn helpu i gefnogi erthygl 20 drwy sicrhau bod y rhan hon o’u gofal wedi’i gwmpasu. |

| Enw’r erthygl a disgrifiad ohoni | Gwella a hyrwyddo / herio ac atal |
|---|---|
| **Erthygl 36:** Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai niweidio eu datblygiad. | |
| **Erthygl 30:** Mae gan blant yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p’un ai yw’r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl y wlad neu beidio. | **Gwella:** Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal hawliau siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i nodi'n glir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn y gyfres o Godau a wnaed o dan y Ddeddf. Mae'r Fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid statudol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a chymryd pob cam rhesymol i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth yn y Gymraeg yn lleol/yn y gymuned. Mae hyn yn adeiladu ar y darpariaethau presennol yn y Cod Ymarfer Rhan 2: Swyddogaethau Cyffredinol sy’n rhoi grym i’r ddyletswydd gyffredinol yn y Ddeddf i roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau unigolyn gan gynnwys iaith. Drwy osod yr hawliau hyn yn glir yng nghyd-destun penodol comisiynu gofal a chymorth, ein nod yw sicrhau y gall darpariaeth Gymraeg ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. |
| **Erthygl 31:** Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau. | **Gwella:** Drwy anelu at wella effeithiolrwydd a chysondeb comisiynu, disgwylir i'r Fframwaith gyfrannu at wireddu nodau'r Ddeddf o ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc a gwella a bodloni canlyniadau llesiant. Wrth wraidd darparu gofal a chymorth mae'r egwyddor 'yr hyn sy’n bwysig' ac mae ymlacio, chwarae a mwynhau cymaint o weithgareddau â phosibl yn nod craidd er mwyn helpu plant a phobl ifanc i fyw eu bywydau mor llawn â phosibl. Felly, mae'r Cod yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr erthygl hon drwy helpu i sicrhau bod gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu darparu'n hyblyg ac yn effeithiol i fodloni anghenion a dymuniadau unigolion pobl. |

| Enw’r erthygl a disgrifiad ohoni | Gwella a hyrwyddo / herio ac atal |
|---|---|
| **Erthygl 42:** Dylai’r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn. | **Gwella:** Bydd gweithredu'r Fframwaith yn golygu codi ymwybyddiaeth, gan gynnwys rhoi gwybod i blant am eu hawliau a sut y bydd y Fframwaith yn effeithio arnynt ac o fudd iddynt. |

Rhan 2 o’r Cod Ymarfer:

Bydd y Cod Ymarfer Rhan 2 yn gwella'r Hawliau canlynol yn y Confensiwn yn benodol:

- **Erthygl 12** – parchu safbwyntiau'r plentyn; bydd y ffocws cliriach ar ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu (pennod 5) yn gwella’r modd y mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses o ddylunio gofal a chymorth.
- **Erthygl 13** - mynegi meddyliau a barn, a mynediad at ystod o wybodaeth: y ffocws cliriach ar ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu (pennod 5), a hefyd y bennod ar wybodaeth, cyngor a chymorth (pennod 6).
- **Erthygl 18** - cyfrifoldebau rhiant: dylai cynnwys ymyrraeth gynnar ochr yn ochr â gwasanaethau ataliol (pennod 3) fod o help penodol i blant a theuluoedd sydd angen cymorth.
- **Erthyglau 20-24 a 39** – bydd y gofynion ynghylch asesiad anghenion poblogaeth (pennod 2), nodi anghenion gofal a chymorth y boblogaeth ac ystod a lefel y gwasanaethau y mae angen eu darparu, yn enwedig ar gyfer grwpiau blaenoriaeth (gan gynnwys babanod, plant a phobl ifanc) yn helpu i wella nifer o hawliau sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys Erthygl 20 (plant nad ydynt yn gallu byw gyda'u rhieni), Erthygl 21 (mabwysiadu), Erthygl 22 (plant sy'n ffoaduriaid), Erthygl 23 (plant anabl), Erthygl 24 (iechyd a gwasanaethau iechyd), ac Erthygl 39 (adferiad o drawma).

Y Swyddfa Genedlaethol
Fel yr uchod ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol, a hefyd:

| Erthyglau<br><br>neu Brotocol Dewisol CCUHP | Gwella a hyrwyddo / herio ac atal |
|---|---|
| Erthygl 12 | **Gwella:** Mae gan y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol rôl o gryfhau llais y sector gofal cymdeithasol, a bydd hyn yn cynnwys pobl ifanc sy'n rhan uniongyrchol neu anuniongyrchol o'r sector. |
| Erthygl 13 | **Gwella:** Bydd plant a phobl ifanc yn cael mynediad at yr un wybodaeth ag oedolion mewn perthynas â'r Swyddfa Genedlaethol. Bydd yr holl wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ar gael i unrhyw un. Ni fydd gwybodaeth yn cael ei dal yn ôl rhag unrhyw grŵp oedran, os yw a gael i'r cyhoedd, mewn perthynas â'r Swyddfa Genedlaethol. |
| Erthyglau 19; 20; 21; 22; 23; 25; 39 | **Gwella:** Nod y Swyddfa Genedlaethol yw hyrwyddo a sicrhau darpariaeth gofal a chymorth i bob dinesydd yng Nghymru sydd eu hangen. Bydd datblygu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn gwella'r hawliau hyn, a bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gweithio gydag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru (a rhanddeiliaid |

| | |
|---|---|
| | perthnasol eraill) i sicrhau bod plant yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ac y mae ganddynt hawl i'w cael. |
| Erthygl 30 | **Gwella:** O ran y Gymraeg, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r strategaeth Gymraeg (Mwy na geiriau) ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. |

**3.3. Dylech ystyried a yw unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.**

Y Fframwaith Cenedlaethol a'r Swyddfa Genedlaethol
Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar ddinasyddion yr UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir y mae eu hawliau, gan gynnwys mewn perthynas â'r Fframwaith Cenedlaethol**, mynediad at wasanaethau cyhoeddus, budd-daliadau a systemau nawdd cymdeithasol** gan gynnwys gofal iechyd a **thriniaeth gyfartal** yn cael eu diogelu gan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion.

## 4. Cyngor Gweinidogol a phenderfyniad y Gweinidog

**4.1. Sut bydd eich dadansoddiad o’r effeithiau hyn yn llywio eich cyngor gweinidogol?**

Cytunwyd ar yr Asesiad hwn o’r Effaith ar Hawliau Plant gan y Cyfarwyddwr perthnasol yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio ac mae casgliadau'r Asesiad a ymgorfforir yn y cyngor Gweinidogol perthnasol wedi cael eu cymeradwyo gan y Dirprwy Weinidog a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 5. Cyhoeddi’r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant

Cyhoeddwyd fersiwn o’r Asesiad hwn ar 19 Mawrth 2024 ar wefan Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Integredig, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhwysir gyda'r Memorandwm Esboniadol. Ar 18 Ebrill tynnwyd y Codau ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol a Rhan 2 yn eu holau gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol i'w diwygio yng ngoleuni'r adroddiadau gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ym mis Ebrill. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf hon o'r Asesiad i gyd-fynd â gosod y codau drafft diwygiedig ar 11 Mehefin 2024. Yn amodol ar gwblhau'r cyfnod dirymu deugain diwrnod ac yn dilyn cyfnod gweithredu trosiannol sy'n cynnwys hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer awdurdodau lleol a chomisiynwyr gofal a chymorth y GIG, bwriedir i'r Cod hwn ddod i rym ar 1 Medi 2024.

## 6. Cyfathrebu â phlant a phobl ifanc

**6.1. Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ynghylch eich cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?**

Y Fframwaith Cenedlaethol
Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd i'r Fframwaith Cenedlaethol ym mis Mai, bydd cyfnod gweithredu cychwynnol dilynol a fydd yn cynnwys ymwybyddiaeth a hyfforddiant i gomisiynwyr gwasanaethau.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn cael ei sefydlu ym mis Ebrill 2024 a bydd ganddi rôl allweddol o ran rhoi’r Fframwaith Cenedlaethol ar waith, gan gynnwys ei adolygu bob dwy flynedd. Bydd y Swyddfa Genedlaethol hefyd yn helpu comisiynwyr i weithio’n unol â'r egwyddorion a'r safonau yn y Fframwaith Cenedlaethol. Bydd rôl y Swyddfa Genedlaethol yn cynnwys ymgysylltu â'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru a fydd yn cynnwys y rhai sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol, sy'n cynnwys plant a phobl ifanc. Bydd datblygu fforwm dinasyddion fel rhan o'r Swyddfa Genedlaethol hefyd yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc, a/neu eu gofalwyr, ymgysylltu'n barhaus.

## 7. Monitro ac adolygu

**7.1. Amlinellwch pa fecanwaith monitro ac adolygu y byddwch yn ei roi ar waith i adolygu’r Asesiad hwn o’r Effaith ar Hawliau Plant. Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen unrhyw ddiwygiadau i’r polisi neu’r modd y’i rhoddir ar waith.**

Bydd gan y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth rôl o ran ymgysylltu â'r sector gofal cymdeithasol a phobl sy'n derbyn gwasanaethau, a fydd yn galluogi pobl sy'n derbyn gwasanaethau i gael llais yng ngwaith y Swyddfa Genedlaethol. Fel rhan o'i swyddogaeth bydd gan y Swyddfa Genedlaethol rôl hefyd i gefnogi comisiynwyr i weithio’n unol â'r egwyddorion a'r safonau ac i gadw’r pecyn cymorth cenedlaethol o adnoddau yn gyfredol. Bydd hefyd yn adolygu ac yn diweddaru'r Fframwaith Cenedlaethol yn ôl yr angen bob dwy flynedd.

Ceir sawl ffynhonnell wybodaeth a fydd yn helpu Llywodraeth Cymru i adolygu a yw’r diwygiadau a wnaed i God Rhan 2 yn cynorthwyo’r awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau cyffredinol o dan y Ddeddf. Nodir y rhain yn y Memorandwm Esboniadol / Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Adran 8), sy'n cael ei gyhoeddi ar wahân. Yn unol â’r arferion da sefydledig o ran is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o’r ffordd y mae’r Cod Rhan 2 diwygiedig yn cael ei roi ar waith ymhen tair blynedd (erbyn mis Mehefin 2027).

Bydd y gwaith o gadw golwg ar effeithiolrwydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cynnwys asesu’n barhaus a oedd y casgliadau y daethpwyd iddynt ynghylch yr effaith ddisgwyliedig yn gywir. Bydd yr Asesiad hwn o’r Effaith ar Hawliau Plant a'r asesiadau effaith perthnasol eraill yn cael eu diwygio a'u diweddaru yn unol â'r monitro hwn a bydd fersiwn wedi'i diweddaru yn cael ei chyhoeddi o leiaf bob dwy flynedd yn unol â’r adeg yr ystyrir gwneud diwygiadau i’r Cod.